PRIF NEGESEUON YR ASESIAD LLESIANT

POBLOGAETH AC IAITH

Rhagwelir mwy o bobl dros 75 oed i'r dyfodol sy'n golygu fod angen cefnogi poblogaeth sy'n heneiddio a sicrhau bod unigolion yn aros yn iach am gyfnod hirach er lles yr economi a gwasanaethau iechyd a gofal.

Ystyrir Gwynedd yn gadarnle i'r Gymraeg ond gwelir **gostyngiad yn y canran o siaradwyr dros y ddegawd ddiwethaf.** Mae cymunedau Gwynedd yn poeni am yr effaith mae mudo, twristiaeth, argaeledd tai addas a fforddiadwy i bobl ifanc a theuluoedd yn ei gael ar y Gymraeg.

AMGYLCHEDDOL

Mae amgylchfyd naturiol amrywiol Gwynedd yn adnodd pwysig. Mae arfordir, llynoedd ac afonydd, mynyddoedd a chorsydd a choedwigoedd yn cael effaith bositif ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol ac economaidd.

Mae newid hinsawdd yn her fyd-eang sy'n cael effaith ar lesiant yng Ngwynedd. Mae'n arwain at gymunedau sydd o dan risg llifogydd uchel, tywydd eithriadol a thir lithriadau a rhoi ein byd natur a chynefinoedd o dan bwysau cynyddol.

Mae gwarchod byd natur a bioamrywiaeth yn bwysig er mwyn datgarboneiddio. Yng Ngwynedd ceir cynefinoedd a rhywogaethau amrywiol sy'n storio'r carbon sy'n cyfrannu at lefel nwyon tŷ gwydr.

Mae **cynnal dyfodol werdd yn flaenoriaeth i gymunedau Gwynedd**. Mae sgyrsiau efo trigolion wedi amlygu'r awch am ardaloedd eco-gyfeillgar sy'n gwneud y mwyaf o'i hadnoddau naturiol.

CYMDEITHASOL

Mae pryder am lefel ordewdra ymysg plant 4-5 oed, a Gwynedd sydd â'r canran uchaf o holl siroedd rhanbarth Gogledd Cymru. Mae tystiolaeth o Loegr a'r Alban yn awgrymu fod y ganran yn debygol o godi o ganlyniad i effaith Covid-19 a'r cyfnod clo.

Mae Covid-19 yn debygol o gael effaith hir-dymor ar iechyd y boblogaeth. Mae hyn yn cynnwys effaith ar iechyd meddwl a chorfforol (er enghraifft, Covid-Hir) a gwaethygu nifer o anghydraddoldebau iechyd oedd eisoes yn bodoli.

Amlygwyd diffyg trafnidiaeth gyhoeddus fel her enfawr i gymunedau cefn gwlad. Roedd amlder gwasanaethau bws yn golygu ei fod yn anodd i drigolion gyrraedd cyfleusterau a gwasanaethau, ac yn debygol o gael effaith waeth ar rai grwpiau, er enghraifft, pobl anabl, pobl ifanc a phobl hŷn

Mae ysbryd cymunedol yn un o brif asedau'r sir yn ôl trigolion Gwynedd. Amlygwyd hyn ym mharodrwydd cymunedau i helpu ei gilydd yn ystod cyfnod Covid-19.

Mae diffyg cyswllt digidol yn rhwystr i bobl a busnesau'r sir. Mae gweithio ac addysgu o bell yn ystod cyfnod Covid-19 wedi amlygu pwysigrwydd argaeledd band-eang.

ECONOMAIDD

Rhagwelir newidiadau yn sectorau gwaith ac i batrwm gwaith i'r dyfodol. Mae angen sicrhau cyfleoedd hygyrch i bawb mewn galwedigaethau fel gwyddoniaeth a thechnoleg.

Mae **cyflogau yn etholaeth Dwyfor Meirionnydd yn is na Gwynedd a Chymru gyfan.** Roedd sicrhau swyddi gwerth uchel yn flaenoriaeth i gymunedau a thrigolion y sir.

Gwynedd sydd ag un o'r canranau uchaf yng Nghymru o dlodi tanwydd. Roedd ymateb i'r llyfrynnau drafft yn amlygu pryder am dlodi, mewn cyfnod be mae costau byw o bob math yn codi.

Mae prisiau a fforddadwyedd tai yn un o brif bryderon cymunedau lleol ar draws y sir ac yn cael effaith negyddol ar lesiant cymdeithasol, diwylliannol, ieithyddol ac economaidd ardaloedd.

Pryder arall sydd wedi ei amlygu gan gymunedau yw'r sefyllfa ail dai / tai haf. Un dangosydd yw'r cynnydd mewn 'troseddau casineb' sydd wedi ei adrodd gan yr Heddlu.

Mae twristiaeth yn cyfrannu at economi Gwynedd ac yn sector gwaith pwysig, ond hefyd yn her ychwanegol i wasanaethau lleol a byd natur. Fe gafodd Covid-19 effaith negyddol ar y sector llety a bwyd y wlad o ganlyniad i'r cyfyngiadau, ac mae hyn wedi bod yn fwy amlwg mewn ardaloedd sy'n dibynnu ar dwristiaeth.

Mae darpariaeth gofal plant yn Bwysig i economi Gwynedd. Mae diffyg darpariaeth cynaliadwy yn effeithio cymunedau yn Ne'r sir.

DIWYLLIANNOL

Mae'r amgylchedd naturiol yn addnodd holl bwysig sy'n cyfrannu at lesiant ac iechyd, gan eu bod yn galluogi trigolion aros yn actif.

Mae diffyg gweithgareddau i blant a phobl ifanc yn bryder i gymunedau Gwynedd. Mae teimlad fod hyn yn arwain at ymddygiad gwrthgymdeithasol ac yn golygu fod pobl ifanc y fro yn llai awyddus i aros yn y sir

Mae'n anodd asesu effaith Covid-19 ar ddigwyddiadau diwylliannol a celfyddydol. Mae'n fwlch data sydd angen sylw.

Mae Safle Treftadaeth y Byd yn cynnig cyfle i fagu balchder mewn bro a hanes, ond mae angen bod yn wyliadwrus o'i effaith ar dwristiaeth a chymunedau lleol.